Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad o'r Swydd

**Teitl y swydd:**
Cynorthwy-ydd Llyfrgell

**Sail:**

Rhan Amser - 30 awr

**Cyflog:**
Gradd 9

**Statws:**
Parhaol

**Sylfaen:**
Llyfrgell Pen-y-bont

**Yn atebol i:**
Goruchwyliwr y Llyfrgell

**Yn atebol am:**
Amherthnasol

## Eich Swydd:

Mae ein Cynorthwywyr Llyfrgell yn gweithio'n hyblyg ar amrywiaeth eang o dasgau, y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys cyfathrebu â defnyddwyr y Llyfrgell a chydweithwyr. Byddwch yn weladwy iawn i'r defnyddwyr, yn barod bob amser i ddarparu cymorth a chefnogaeth wrth ddefnyddio'r Llyfrgell a'i chyfleusterau, gan gynnwys ei chyfleusterau TG ac eAdnoddau.

Yn dilyn hyfforddiant, byddwch yn helpu i ddarparu ein rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau sy'n amrywio o Rhythm a Rhigwm i fabanod, Clybiau Codio, grwpiau darllen i grwpiau coffi sy'n ystyriol o Ddementia.

# Yn y swydd hon, byddwch yn:

- Croesawu defnyddwyr y llyfrgell ac yn ymdrin â'u benthyciadau llyfrau, ceisiadau ac ymholiadau am wybodaeth.
- Rhoi cymorth i'r cyhoedd gydag ymholiadau TG a digidol a chynghori defnyddwyr am yr hyfforddiant TGCh sydd ar gael mewn llyfrgelloedd. .
- Cynorthwyo gydag ymholiadau Man Gwybodaeth y Cyngor yn dibynnu ar leoliad
- Gweithio fel rhan o dîm i gyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys amseroedd stori, Rhythm a Rhigwm, Grwpiau Darllen, Clybiau Codio, ymweliadau dosbarth a gweithgareddau crefft ac ati.
- Cynghori darllenwyr ar eu dewis o lyfrau a deunyddiau i sicrhau eu bod yn cael gafael ar y wybodaeth orau ar gyfer eu hanghenion.
- Helpu i hyrwyddo holl wasanaethau'r llyfrgell gan gynnwys yr ystod o wasanaethau ar-lein sydd ar gael 24/7
- Gwybod y diweddaraf am hyrwyddiadau arbennig a gweithio gyda'r tîm i drefnu gweithgareddau ac arddangosfeydd perthnasol.
- Cymryd rhan mewn trefniadau wrth gefn i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen ar draws llyfrgelloedd yn cael eu darparu yn ôl y gofyn
- Chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau Awen i'r cyhoedd
- Cynnal trafodion talu gyda chwsmeriaid yn unol â Chanllawiau Ariannol Awen
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu a fydd yn eich helpu i gyflawni'r tasgau a'r cyfrifoldebau uchod hyd eithaf eich gallu

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd neu eich anweithredoedd yn y gwaith effeithio arnynt.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnewch.

- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, y gallai fod angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# Manyleb y Person

## Y person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Dull ac agwedd hyblyg a rhagweithiol. (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd am lyfrau a darllen. (H)
- Hyder a brwdfrydedd i helpu i ddatblygu'r rhaglen ddigwyddiadau ac i gynnal gweithgareddau. (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. (H)
- Personoliaeth a sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen i weithio gyda phobl o bob oed gan gynnwys plant a phobl ifanc. (H)
- Meddwl ymlaen llaw a gallu cyfrannu at ddatblygiad Awen
- Ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a phrosiectau newydd
- Cyfrannu at yr ethos o welliant parhaus
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i ddiben a gwerthoedd Awen
- Meddyliwr arloesol a chreadigol sy'n mwynhau cefnogi datblygiadau a mentrau newydd

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL GYDA **(H)**):

- Cymhwyster TGCh ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth am Microsoft Office neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Safon dda o addysg, sy'n cyfateb i TGAU A-C/NVQ/OCF 2, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Profiad mewn swydd gwasanaeth cwsmeriaid (H)
- Y gallu i deithio **(H)**
- Sgiliau gweinyddu da gydag ymagwedd drefnus a sylw i fanylion (H)
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a'r gallu i gyfathrebu'n glir (H)
- Y gallu i gymhwyso gwybodaeth berthnasol er mwyn hyfforddi a chefnogi eraill
- Profiad o ymdrin â thrafodion ariannol a thrin arian parod
- Gwybodaeth am safonau llyfrgelloedd a phrosesau perthnasol
- Gallu trefnu gwaith i gwrdd â therfynau amser
- Y gallu i siarad Cymraeg

awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 9610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.